

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Chwefror 13eg 2018 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (Cadeirydd), Geraint Davies, Geraint Jones, Huw Charles, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Euros Puw, Arwel Davies, Jean Roberts, Gwynfryn Williams a Rhys Richards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Ionawr a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Hen loches bws, Parc.

Adroddodd y clerch fod Technegydd Cludiant Gweithredol Cyngor Gwynedd wedi cytuno i gyfarfod gyda'r cynghorwyr i'w cynghori ynglŷn â dymchwel yr hen loches bws a dewis safle priodol ar gyfer lloches newydd yn y pentref.

b) Derbyniwyd yr ymatebion isod gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r cwynion a anfonwyd atynt:-

- i) Roedd y gweithlu wedi cael cyfarwyddiadau i ymgymryd â'r gwaith atgyweirio i'r bont droed ym mhentref Parc, i lanhau'r gwteri rhwng Llanerch Las a chyffordd, Maesywaen ac i dorri'r canghennau a oedd yn dod drosodd i'r ffordd rhwng Groeslon a Bont Ceunant, Maesywaen
- ii) Pont Rhydyfen, Arenig – roedd y contractwyr wedi cael y gwaith i osod darn newydd ar y ganllaw.
- iii) Ffos ger Fedw Arian – cafwyd cadarnhad fod y ffos wedi cael ei chlirio.

c) Mast ffonau symudol ym Mhenbryn Mawr, Arenig

Cafwyd cadarnhad fod cymhlethdodau wrth gael cysylltiad yn ôl i'r rhwydwaith a hefyd roedd llawer o waith cyfreithiol ynghlwm a'r gwaith ond roedd y gwaith yn symud yn ei flaen.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn

i) Derbyniwyd copiâu o gofnodion y cyfarfodydd diwethaf.

b) Cyngor Gwynedd

- i) Ad- Drefnu Ysgolion Dalgylch y Berwyn – gwybodaeth am y cyfnod ymgynghori.
- ii) Sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol - taflen gwybodaeth i'w ddsbarthu ynglŷn â'r trefniadau newydd i sicrhau mynediad i wasanaethau oedolion.

c) Un Llais Cymru

i) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn Nolgellau ar y 20/02/18.

ch) Amrywiol

- i) Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn - Ymgynghoriad ar y Cynllun Llesiant Drafft Gwynedd a Môn.
- ii) Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Gwynedd.
- iii) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol - cafwyd eglurhad gan y clerch fod angen i'r Cyngor gydymffurfio â'r rheoliadau newydd Diogelu Data erbyn 25ain Mai 2018. Cytunwyd i drafod y mater ymhellach unwaith fydd y clerch wedi derbyn cyfarwyddiaid pellach gan Un Llais Cymru.
- iv) Parc Cenedlaethol – Cadarnhad fod y Parc wedi cyflwyno cynigion ar gyfer adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol Eryri diwygiedig 2016-31i Lywodraeth Cymru at ddibenion archwiliad annibynnol.

iv) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i'w gefnogi:-
NP5/72/118C – Trosi adeilad allanol i ffurfio rhan o'r ty. Bryn Goleu, Rhyduchaf.

v) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

b) Un Llais Cymru – Paratoi'r Gyllideb 2018/19

Derbyniwyd e-bost yn ein cynghori i gynnwys arian ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr yn ein cyllideb 2018/19. Yn anffodus roedd y cyngor wedi cyrraedd yn rhy hwyr gan fod y gyllideb wedi cael ei gymeradwyo a swm y Praesept wedi ei anfon i Gyngor Gwynedd ym mis Ionawr.

ch) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) Aled Charles (atgyweirio lloches bws Rhyduchaf)

ii) Un Llais Cymru (tal aelodaeth) - £61

d) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Theatr Bara Caws, CFFI Meirionnydd, Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro 2018 a Cantref. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

vi) Unrhyw Fater Arall

a) Cytunwyd i basio'r gŵyn canlynol ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

i) Dwr yn gorlifo i'r ffordd ger Frongain/Bryn Tirion, Maesywaen.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth
13eg yn Neuadd Maesywaen am **7.30 y.h. (nid 8 y.h)****